PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 07 GORFFENNAF 2023, ym Mhrif Neuadd Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Ms Kate Eden (dros Teams); yr Athro Simon Green; Miss Elain Gwynedd, Llywydd UMCA; Dr Louise Marshall; Ms Rhuanedd Richards (dros Teams); Mr Bayanda Vundamina, Llywydd UMAber; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed (dros Teams); Ms Claire Vaughan; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Mark Godsell, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol, (eitem 81.1); Mrs Andrea James, Cyfarwyddwr Ystadau, Adnoddau a Llety (eitem 81); Mr Nick Rogers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Gweithrediadol; Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus; a Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol.

Anfonwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Dr William Williams, Ms Kylie Evans. Anfonodd Ms Nicola Wood ymddiheuriadau am ran o'r cyfarfod, fel y nodir yn y cofnodion.

**70. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Er mwyn bod yn agored, nododd Ysgrifennydd y Brifysgol mai ei brawd oedd y cyfieithydd. Gwnaed y trefniadau trwy wasanaeth cyfieithu'r Brifysgol, ac nid oedd gan y cwmni gyswllt uniongyrchol â'r adran Lywodraethu.

**71. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

1. Llongyfarchiadau

    1. Penodwyd y Dirprwy Ganghellor, y Fonesig Elan Closs Stephens, yn Gadeirydd dros dro ar y BBC.

    2. Bydd enw'r Athro Mererid Hopwood yn cael ei gyflwyno i gyfarfod cyffredinol Bwrdd Gorsedd y Beirdd i'w hurddo'n Archdderwydd am y cyfnod 2024-27.

2. Cydymdeimlad

    Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw Janet Rowland, Tiwtor Arweiniol Sgiliau Astudio Arbenigol gyda'r tîm Hygyrchedd a Chynhwysiant yn adran y Gwasanaethau i Fyfyrwyr.

3. Penodi Is-Ganghellor

    1. Ar ôl cynnal trefn gaffael gyflawn, penodwyd cwmni Odgers Berndston i arwain y chwilio. Bydd y Cyngor yn penodi pwyllgor dewis a fydd yn dod â chynnig gerbron y Cyngor maes o law. Gofynnwyd i aelodau gysylltu ag Ysgrifennydd y Brifysgol pe bai ganddynt ddiddordeb i fod yn aelod annibynnol o'r Cyngor ar y pwyllgor dewis.

2. Bydd angen i'r Pwyllgor Enwebiadau ystyried aelodau newydd i'r Cyngor oherwydd ymddiswyddiad Sharron Lusher, William Williams, a Nicola Wood.

4. Cadeirydd y Cyngor

Gadawodd Meri Huws yr ystafell ar gyfer eitem 71.5.

1. Cafodd y broses ei hesbonio'n llawn, a nodwyd bod Meri Huws wedi ei gwahodd i adael y drafodaeth pan ddaeth yn amlwg y byddai angen rhoi sylw i ystyriaethau eraill y tu hwnt i'r drefn recriwtio allanol. Cadeiriwyd y Pwyllgor Enwebiadau wedyn gan Rhuanedd Richards, a gadarnhaodd nad oedd gwrthdaro buddiannau. Cafodd trefn arall, a amlinellir yn Ordinhad 6, 2.1 (b), ei rhannu a chytunodd y Cyngor arni.

2. Daeth un cais i law Ysgrifennydd y Brifysgol. Gwahoddwyd Meri Huws i gyfweliad gan y Pwyllgor Enwebiadau, ac un aelod allanol, yn unol â'r drefn y cytunwyd arni. Argymhellodd y Pwyllgor Enwebiadau i'r Cyngor i benodi Meri Huws yn Gadeirydd y Cyngor, ac y dylai tymor y swydd gael ei adolygu yn haf 2025.

**PENDERFYNWYD**

3. Penodi Meri Huws yn Gadeirydd y Cyngor o 1 Ionawr 2024, ac adolygu'r tymor yn haf 2025.

4. Byddai angen i'r Cyngor ystyried talu Cadeirydd yn y dyfodol agos, oherwydd y sefyllfa heriol o ddenu ymgeiswyr a'r cynnydd i'r cyfrifoldebau a'r gofynion ar Gadeirydd y Cyngor.

## 72. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2023 (COU2223-108).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

## 73. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2223-109).

NODWYD

1. Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

2. Adroddwyd bod y camau canlynol 'wedi eu terfynu', ar ôl cael diweddariad llafar:

   11.1.6. Is-Strategaeth academaidd cyfrwng Cymraeg: Diweddariad i'w roi i'r Cyngor ar y datblygiadau.

   23. Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch: Cymariaethau blwyddyn i flwyddyn i'w darparu.

27.4 Adolygiad o’r Rheoliadau Ariannol.

54.4 Trefniadau dros dro i swydd yr Is-Ganghellor

**74. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2223-110)

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor pryd y cafodd materion eu cymeradwyo gan aelodau trwy ohebiaeth, neu gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.

2. Y materion a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:

    1. Dogfennau Llywodraethu.

**75. GOHEBIAETH**

1. <u>Llythyr Adolygu Risg Sefydliadol</u>

    DERBYNIWYD

    Llythyr oddi wrth Dr David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC (COU2223-111)

    NODWYD

    1. Cafodd drafft y Llythyr Adolygu Risg Sefydliadol oddi wrth y Cyngor Cyllido ei roi ar y bwrdd yn y sesiwn wybodaeth i’r Cyngor. Byddai’r llythyr terfynol ac ymateb llawn yn cael eu cyflwyno i gyfarfod o’r Cyngor yn y dyfodol i'w hystyried ar ôl derbyn y llythyr terfynol a chael cadarnhad o'r dyddiadau cau ar gyfer ymateb.

**76. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2223-112)

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a denu myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Mae UCU yn dal i fod mewn anghydfod â'r cyflogwyr ynglŷn â chyflogau a phensiwn. Ceir arwyddion cadarnhaol y bydd yr holl fyfyrwyr yn graddio gyda graddau â dosbarth, ac y bydd yr holl fyfyrwyr yn symud ymlaen i'r flwyddyn academaidd nesaf. Mae ychydig o fyfyrwyr yn dal i fod heb yr holl farciau a bydd angen marcio eu gwaith yn nes ymlaen, er na ddylai eu marciau effeithio ar eu graddau terfynol. Mae'r brifysgol wedi rhoi gwybod i CCAUC am y cyd-destun.

3. Mae cynaliadwyedd ariannol y brifysgol yn dal i fod yn heriol. Denu myfyrwyr yw’r brif flaenoriaeth o hyd. Mae cyflogau a chynaliadwyedd ariannol y brifysgol yn cael eu hystyried law yn llaw ac mae'r brifysgol yn parhau i weithredu o fewn i ffiniau cyfyng.

4. Cyhoeddwyd The Complete University Guide ar 7 Mehefin, a dringodd Prifysgol Aberystwyth 14 safle, i fod yn 39$^{ain}$ yn gyffredinol. Daeth y Brifysgol yn y 38$^{ain}$ safle yn y Times Higher Education, ac mae hyn yn rhoi'r Brifysgol yn y 40 uchaf mewn dau o'r tablau cynghrair prifysgolion.

5. Bydd y Deyrnas Unedig yn gallu manteisio ar rhaglen grantiau Horizon Europe a gwneud cais i gymryd rhan mewn prosiectau, sy'n bwysig i'r gymuned ymchwil.

Gadawodd Nicky Wood y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD**

6. Nododd yr aelodau yr adroddiad.

7. Bydd staff y Weithrediaeth yn ystyried sut y gellir cydnabod staff sydd wedi mynd y tu hwnt i'r gofynion er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn graddio a symud ymlaen, heb ragfarnu yn erbyn y rhai sydd wedi gweithredu'n ddiwydiannol.

**77. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2223-113).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad ddiweddariad cryno ar iechyd a diogelwch, yn seiliedig ar yr adroddiadau perthnasol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (Ll&Ch) ar 13 Mehefin 2023.

**78. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd UMAber (COU2223-114).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

2. Ers y llynedd, mae nifer yr oriau gwirfoddoli wedi cynyddu 45%, a chofnodwyd 9000 awr gan 118 o fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli.

3. Nododd Llywydd UMCA y bydd UMCA yn dathlu 50 mlynedd ym mlwyddyn academaidd 2023-24.

**79. MATERION ARIANNOL**

1. <u>Diweddariad ynghylch y Cyfrifon Rheoli</u>

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan Mark Godsell, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro, (COU2223-115).

   NODWYD

1. Ers cymeradwyo'r gyllideb, bu rhai symudiadau anffafriol, yn fwyaf arbennig niferoedd is o fyfyrwyr, llai o incwm buddsoddi, dyfarniadau cyflog uwch na'r hyn y caniatawyd ar eu cyfer, a phwysau costau ychwanegol yn deillio o'r hinsawdd bresennol. Bu rhai symudiadau ffafriol hefyd, yn fwyaf nodedig credyd pensiynau USS, gwrthdroi'r cynnydd i Gyfraniadau Yswiriant Gwladol gan Lywodraeth San Steffan, a chyllid ychwanegol QR canol-blwyddyn gan y Cyngor Cyllido.

2. Dyrannwyd £0.9m ychwanegol i'r Brifysgol yn ystod y flwyddyn, sef cyllid QR untro ym mis Mawrth 2023, yn erbyn gostyngiad gwreiddiol o £0.3m.

3. Yn yr hydref 2023, dechreuwyd canolbwyntio o'r newydd ar ddenu myfyrwyr rhyngwladol yn benodol, gyda'r bwriad cychwynnol o dargedu myfyrwyr a fydd yn dechrau fis Ionawr 2023. Denwyd mwy o fyfyrwyr na'r amcan yn y gyllideb, ac mae £0.76m ychwanegol wedi'i gynnwys yn y rhagolygon.

4. Mae sefyllfa ariannol Canolfan y Celfyddydau yn parhau i fod yn heriol, sy'n adlewyrchiad o sefyllfa canolfannau tebyg ledled y sector. Nid yw nifer yr ymwelwyr wedi cyrraedd yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig, ac mae'r cynnydd cyffredinol oherwydd chwyddiant yng nghostau eitemau i'w gwerthu yn y mannau masnachu yn cael eu harolygu'n ofalus.

5. Mae costau'n cael eu rheoli'n weithredol ac mae swyddogion y Cyngor Cyllido yn cael y manylion ddiweddaraf mewn cyfarfodydd misol.

**PENDERFYNWYD**

6. Cafodd yr adroddiad ei drafod a'i nodi gan yr aelodau.

2. <u>Perfformiad Cronfeydd Gwaddol a Chronfeydd Buddsoddi eraill</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2223-116).

NODWYD

1. Roedd portffolio'r Cronfeydd Gwaddol a Chronfeydd Buddsoddi eraill wedi gostwng ychydig, o £40.3m i £40.2m. Roedd prisiant y portffolio buddsoddiadau yn ôl y farchnad wedi gostwng £0.7m, ond gwrthbwyswyd hyn gan waddoliad newydd a dderbyniwyd, gwerth £0.5m.

2. Bu peth oedi i brosiect yr Hen Goleg, ond nid oes angen gweithgaredd gwaredu i gefnogi'r prosiect yn ariannol.

3. Mae cwmni Quantum Advisory newydd ei benodi yn gynghorwyr proffesiynol, ac fe gafodd y Pwyllgor Buddsoddiadau ddarlun cyffredinol o'r farchnad a'r rhagolygon ganddynt yn un o'r cyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD**

4. Nododd yr aelodau y symudiadau yn y cronfeydd gwaddol a'r cronfeydd buddsoddi eraill yn y cyfnod 1 Awst 2022 i 31 Mawrth 2023.

3. <u>Cyllideb 2023-24, a Rhagolygon Ariannol y blynyddoedd tan 2027-28</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mark Godsell, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro, (COU2223-117).

NODWYD

1. Mae Cyllideb 2023-24 a Rhagolygon Ariannol y pum mlynedd hyd at 2027-28 yn dangos gwarged wedi'i gynllunio ym mhob blwyddyn ariannol, yn adeiladu ar y gwarged disgwyliedig am 2022-23, a’r gwarged a gafwyd yn 2021-22.

2. Ar ben y risgiau sy’n deillio o weithgaredd busnes arferol a reolir gan y Brifysgol, mae sawl risg yn effeithio ar y Sector Addysg Uwch, yn cynnwys nifer y myfyrwyr a dderbynnir a chyfraddau trosi; dyfarniadau tâl yn y dyfodol; gostyngiad i weithgaredd masnachu; polisi ffioedd israddedig rheoledig yng Nghymru, sy'n dal i fod yn £9,000; cyllid ansawdd ymchwil; a'r ansicrwydd ynglŷn â chostau cyfleustodau.

3. Mae trafodaethau diweddar ar ddyfarniadau cyflog wedi bod yn sylweddol uwch na’r hyn a ragdybiwyd wrth gynllunio yn y tymor hwy, ym Mhrifysgol Aberystwyth ac ar draws y sector addysg uwch ehangach yng Nghymru.

4. Cafodd swyddi newydd eu cynnwys yn y gyllideb, ond ni ellid caniatáu pob cais, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol y sefydliad.

5. Mae’r llety preswyl yn llawn, ar wahân i Pantycelyn. Mae'r mater hwn yn parhau i gael ei adolygu gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

6. Mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â chyfamodau trwy gydol 2022-23, a rhagwelir y bydd y datganiad llif arian yn cydymffurfio â chyfamodau ymhob chwarter yn 2023-24.

7. Cydnabyddir bod cronfeydd arian wrth gefn y Brifysgol yn rhy isel a bod angen eu hailgyflenwi. Mae'r newidiadau posibl yng nghyfraniadau'r USS yn dilyn adolygiad tair blynedd 2023 yn debygol o roi budd ariannol pellach i'r Brifysgol y gellid ei ddefnyddio i’r diben hwn. Nododd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad y sefyllfa a’i chymeradwyo ar gyfer y dyfodol.

8. Dylid rhoi gwybod i’r Cyngor pe byddai unrhyw broblemau’n codi yn gysylltiedig â denu myfyrwyr a chanlyniadau ariannol hynny.

9. Wrth iddi ystyried ei strategaeth yn y dyfodol dylai Canolfan y Celfyddydau ddangos ei gwerth i boblogaeth y myfyrwyr a phrofiad y myfyrwyr.

10. Yr Hen Goleg sy’n effeithio fwyaf ar y gyllideb gyfalaf. Mae TG a systemau cofnodion myfyrwyr, a gwaith seiber-hanfodol parhaus wedi cael eu hystyried wrth lunio cyllideb. Mae trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal ar draws y sector i chwilio am gyfleoedd i gydweithio ar brosiectau sylweddol.

11. Cafodd y prosiect effeithlonrwydd ynni a'r gwariant eu trafod, a byddant yn parhau i gael eu harolygu'n ofalus.

**PENDERFYNWYD**

12. Cafodd y gyllideb am 2023-24 ei chymeradwyo gan yr aelodau yn ogystal â'r blynyddoedd dilynol ar sail ddangosol.

13. Dylid edrych eto ar y newidiadau posibl i gyfraniadau USS a rhoi ystyriaeth i nifer y dyddiau hylifedd yn flynyddol. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol: Cyfarwyddwr Cyllid]

4. Cynllun Ffioedd a Mynediad

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Sarah Taylor, Pennaeth Datblygu Strategol (COU2223-118).

NODWYD

1. Symudodd y Cyngor Cyllido i gylch dwy flynedd ar gyfer Cynlluniau Ffioedd a Mynediad o 2023. Bydd y cynllun cyfredol yn parhau tan sesiwn academaidd 2024/25. Erys peth ansicrwydd ynglŷn â’r effaith a gaiff y newid o’r Cyngor Cyllido i’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar fformat, cynnwys ac amseru Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn y dyfodol.

2. Mae'n ofynnol i'r Brifysgol wario 17% o ffioedd (israddedigion) ar weithgareddau Cynllun Ffioedd a Mynediad.

**PENDERFYNWYD**

3. Bydd y Swyddfa Gynllunio yn adolygu gweithgareddau a ystyrir yn rhai’r Cynllun Ffioedd a Mynediad gyda'r adrannau perthnasol, er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn gallu adrodd yn effeithiol i Gyngor y Brifysgol yn yr hydref, ac i sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i gynnal digon o weithgareddau ym mlwyddyn academaidd 2024/25 i gyflawni lefel dderbyniol o wariant y Cynllun Ffioedd a Mynediad (17% o ffioedd israddedigion).

5. Dangosyddion Perfformiad Allweddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mark Godsell, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro, a Helen Thomas, Uwch Ddadansoddwr Data (COU2223-119)

NODWYD

1. Mae’r Dangosyddion yn gysylltiedig â chyllid ymchwil a derbyn myfyrwyr rhyngwladol yn gadarnhaol iawn.

2. Oherwydd canlyniadau cadarnhaol yn gyffredinol, bydd swyddogion yn adolygu'r Dangosyddion i sicrhau eu bod yn dal i fod yn ddigon heriol.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad.

6. Rheoliadau Ariannol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mark Godsell, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (COU2223-120).

NODWYD

1. Roedd adolygiad o'r Rheoliadau Ariannol wedi ei gynnal. Mae'r Rheoliadau'n amlinellu cyfres o egwyddorion a gwybodaeth ar lefel uchel. Bydd y Polisïau a'r Gweithdrefnau sylfaenol yn rhoi arweiniad penodol.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd y Rheoliadau Ariannol.

3. Mae'r Rheoliadau Ariannol yn cael eu hadolygu'n gynhwysfawr bob tair blynedd yn lle'r ddwy flynedd fel y mae ar hyn o bryd, ac mae adolygiad 'cryno' yn cael ei gynnal gan staff yr adran Gyllid yn y blynyddoedd eraill. [GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol; Cyfarwyddwr Cyllid]

**80. CYNNIG: DEINTYDDIAETH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (COU2223-121)

NODWYD

1. Yn amodol ar gael cyllid digonol, cynigir ystyried cyfleoedd i agor ysgol ddeintyddiaeth ag iddi adnoddau hyfforddi cysylltiedig ar batrwm prif ganolfan a lloerennau. Prifysgol Aberystwyth fyddai'r brif ganolfan, a byddai adnoddau clinigol wedi'u lleoli mewn pedwar neu bum 'lloeren'. Byddai union leoliad y lloerennau'n seiliedig ar yr angen am adnoddau deintyddol, diffyg gweithlu, a chanfod adnoddau addas y gellid eu haddasu i'r diben.

2. Trafodwyd y risgiau a'r cyfleoedd posibl, gan nodi hefyd bod risgiau'n deillio o beidio â mynd â'r cynnig ymlaen.

3. Nid oedd modd dargyfeirio cyllid ac adnoddau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y prosiect, felly byddai angen cyllid llawn ar ei gyfer.

**PENDERFYNWYD**

4. Cytunodd yr aelodau i ganiatáu i swyddogion symud ymlaen i gam nesaf y broses. [**GWEITHREDU:** yr Is-Ganghellor]

**81. MATERION YN YMWNEUD Â'R YSTAD**

1. <u>Yr Hen Goleg</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2223-122).

NODWYD

1. Ar ôl ystyriaeth fanwl, yn cynnwys cael cyngor cyfreithiol ac ymgynghori â'r prif gyllidwyr, llofnodwyd y Weithred Amrywio i'r Contract Adeiladu gydag Andrew Scott Ltd ar 9 Mai. Mae is-gontractwyr ar y safle a dechreuodd y gwaith ar 5 Mehefin.

2. Yn ôl yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â phrisio, disgwylir i gostau'r prosiect gynyddu oherwydd pwysau parhaus chwyddiant a chyfnodau oedi.

3. Wrth ailgydio yn y gwaith ar y safle, bydd cyfnod newydd o weithgaredd codi arian yn dechrau. Mae mwy o gyfleoedd ar gyfer rhoddion sylweddol a chynnydd mewn cynigion yn cael eu hystyried a'u harchwilio.

4. Oherwydd yr oedi, mae'r posibilrwydd o gyllid ychwanegol WEFO yn edwino a'r flaenoriaeth yw gwneud y gorau o'r cyllid a gadarnhawyd wrth wario. Mae WEFO yn disgwyl cael eu hysbysu'n brydlon os na ellir gwario'r cyfanswm llawn mewn pryd fel y gellir ailddyrannu arian. Mae gwariant yn cael ei arolygu'n ofalus ac mae'r holl wariant cymwys yn cael ei nodi yn flaenoriaeth yn ogystal ag unrhyw bosibiliadau i gyflymu gwaith.

5. Rhoddwyd sicrwydd i'r Cyngor bod Grŵp Goruchwylio'r Hen Goleg yn fodlon â'r adroddiadau yr oeddent yn eu cael, a'r cynnydd a wnaed.

**PENDERFYNWYD**

6. Byddai'r Cyngor yn ymweld â'r adeilad yn yr hydref 2023. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol]

2. Llwybr Beicio Blaen-dolau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Tim Macy, Rheolwr Cynllunio Gofod (COU2223-123)

NODWYD

1. Cysylltodd y Cyngor Sir â'r Brifysgol i ofyn am gael lledu'r llwybr beicio o amgylch caeau chwarae Blaen-dolau yn rhan o'r Cynllun Teithio Llesol. Bydd y gwaith yn golygu symud y ffens sydd yno a neilltuo llain ychwanegol o dir i roi lle i'r llwybr lletach. Ni werthir y tir, gan fod y Brifysgol yn cadw rhydd-ddaliadaeth y pridd.

2. Ni fydd y Cyngor yn talu'r Brifysgol am gyflwyno'r tir, ond bydd yn gwella'r ffens ar hyd y rhan hon i wneud iawn.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyodd y Cyngor gyflwyno llain gul o dir er mwyn i'r Cyngor Sir ledu'r llwybr beicio presennol.

**82. AILENWI CADAIR WOODROW WILSON MEWN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL, YN YR ADRAN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL.**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Alistair Shepherd, Pennaeth Dros Dro yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol) (COU2223-124)

NODWYD

1. Ym mis Gorffennaf 2020, cytunodd Cyngor y Brifysgol mewn egwyddor i ailenwi Cadair Woodrow Wilson mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol, yn amodol ar ymgynghori â'r teulu

Davies, a waddolodd y Gadair yn wreiddiol. Ymgynghorwyd â'r teulu Davies ym mis Gorffennaf 2020 a'u teimlad hwy oedd mai mater i'r brifysgol fyddai newid yr enw.

2. Ymgynghorwyd â staff a rhanddeiliaid ac mae amryw o bosibiliadau wedi'u trafod.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyodd y Cyngor enw'r Gadair, 'Cadair Aberystwyth mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol', yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd Wilson.

## 83. STRATEGAETH A CHYNLLUN GWEITHREDU SERO NET

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dewi Day, Ymgynghorydd Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd (COU2223-125).

NODWYD

1. Trefnwyd sesiwn wybodaeth i'r Cyngor cyn cyfarfod ffurfiol y Cyngor, ac mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu wedi cael eu hystyried gan y Weithrediaeth, a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

2. Bydd cyflawni sero net yn heriol, ond mae prosiectau blaenoriaeth wedi'u nodi.

3. Nododd Undeb y Myfyrwyr eu diddordeb yn y gwaith ac ystyriwyd sut i sicrhau bod myfyrwyr yn cael bod yn rhan o grwpiau ymgynghori.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyodd yr aelodau y strategaeth Sero Net a'r cynllun gweithredu.

5. Dylid darparu diweddariadau pellach i'r Cyngor trwy ei bwyllgorau. [GWEITHREDU: Ymgynghorydd Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd; ac Ysgrifennydd y Brifysgol]

## 84. GOSTYNIAD TRETH THEATRAU i GANOLFAN Y CELFYDDYDAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Michelle Carwardine-Palmer, Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau Dros Dro a'r Athro Anwen Jones, FPVC FASS (COU2223-126)

NODWYD

1. Cymhelliant treth yn y diwydiant creadigol, a gyllidir gan lywodraeth San Steffan, yw'r cynllun Gostyngiad Treth i Theatrau. Cafodd cyfraddau uwch o ostyngiadau treth eu hymestyn hyd at fis Ebrill 2026, er mwyn cynorthwyo i gefnogi'r diwydiannau creadigol mewn cyfnod o heriau digynsail yn y sector. Amcangyfrifir y gallai Canolfan y Celfyddydau hawlio hyd at £90,000 ym Mlwyddyn 1 a byddai cynhyrchiad haf nodweddiadol yn elwa hyd at £40,000 y flwyddyn. Mae cynaliadwyedd ariannol Canolfan y Celfyddydau a'i gallu i gyflwyno'i chynyrchiadau theatrig ei hun yn cael eu cynorthwyo yn sylweddol trwy allu hawlio'r gostyngiad hwn.

2. Wrth ateb ymholiadau aelodau, cadarnhawyd nad oedd unrhyw oblygiadau AD i hyn. Mae'r cynllun yn hawlio gwariant yn ôl ac nid yn gostwng treth.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwywyd y cynnig.

**85. MATERION LLYWODRAETHU**

1. Cynllun Gweithredu’r Arolwg o Effeithiolrwydd Llywodraethu – diweddariad a Chynllun Gweithredu Adolygiad Camm - Diweddariad

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2223-127).

NODWYD

1. Diweddariad gan Ysgrifennydd y Brifysgol ynglŷn â chamau gweithredu a gwaith sy’n mynd rhagddo i adolygu camau gweithredu a gwblhawyd yn flaenorol i sicrhau bod y gwaith wedi'i gyflawni’n drwyadl.

**PENDERFYNWYD**

2. Dylid cyfuno Cynllun Gweithredu’r Arolwg Effeithiolrwydd Llywodraethu a Chynllun Gweithredu Adolygiad Camm a’u gwneud yn un cynllun gweithredu. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

2. Diwygiadau i Gytundeb Perthynas UMAber

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2223-128).

NODWYD

1. Mae'n amod gan y Cyngor Cyllido bod prifysgolion ac Undebau Myfyrwyr yn creu Cytundeb Perthynas, y dylid ei gymeradwyo bob blwyddyn gan Gorff Llywodraethu'r sefydliad, ei adolygu’n flynyddol mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, a'i lofnodi gan y Swyddogion Myfyrwyr sy'n dechrau yn eu swyddi.

2. Heblaw am ddiweddaru'r llofnodion, nid oedd newidiadau'n cael eu cynnig i'r Cytundeb Perthynas fel y saif ar hyn o bryd ac roedd copi wedi'i atodi wrth yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

3. Bod y Cyngor yn cadw’r Cytundeb Perthynas sydd mewn grym ar hyn o bryd am y flwyddyn academaidd i ddod.

3. Canlyniad Arolwg Effeithiolrwydd Pwyllgorau

DERBYNIWYD

Adroddiad a dderbyniwyd gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2223-129).

NODWYD

1. Yn ôl yr arfer, gwahoddwyd aelodau'r Cyngor i lenwi holiadur a rhoi adborth adeiladol ar ddull gweithredu’r corff llywodraethu yn y flwyddyn ddiwethaf. Os oeddent yn addas, darparwyd yr ymatebion a gafwyd yn rhan o broses y flwyddyn flaenorol er mwyn gallu gwneud cymariaethau.

2. Llenwyd yr arolwg gan 77%, canran uwch na 2022, a diolchwyd i'r aelodau am gymryd rhan. Roedd nodyn o'r wybodaeth feintiol ac ansoddol wedi ei gynnwys yn yr adroddiad a ddangosai fodlonrwydd cyffredinol â dulliau gweithredu'r Cyngor. Yn yr un modd ag adborth pwyllgorau, un maes allweddol ar gyfer datblygiad posibl yw risg a'r ffordd mae Cyngor y Brifysgol yn ystyried ac yn trafod risg ar lefel pwyllgor a chyngor. Roedd 78.6% o'r ymatebwyr yn credu bod y cydbwysedd rhwng y Cyngor a'i bwyllgorau yn briodol, ond nododd yr aelodau lwyth y gwaith papur ac awgrymwyd adolygu gwaith y Cyngor a'i bwyllgorau. Ar y cyfan roedd yr aelodau'n croesawu mynd nôl i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodi cynnwys yr adroddiad ac ystyried unrhyw awgrymiadau. [**GWEITHREDU:**Ysgrifennydd y Brifysgol]

4. Cadair ArloesiAber

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2223-130).

NODWYD

1. Bydd yr Athro Colin McInnes yn rhoi'r gorau i fod yn Gadeirydd ArloesiAber pan fydd yn ymddeol ar 31 Awst 2023.

2. Roedd Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Enwebiadau'r Bwrdd wedi argymell i'w Fwrdd Cyfarwyddwyr y dylai John Berry, arbenigwr bwydydd amaethyddol sydd â phrofiad helaeth mewn busnes ac arweinyddiaeth, gael ei benodi'n Gadeirydd ArloesiAber. Cymeradwywyd hyn yng nghyfarfod y Bwrdd ar 22 Mehefin 2023.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd y penodiad.

**86. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2223-131);

2. Adroddiad Blynyddol UMAber i'r Senedd (COU2223-132); a

3. Crynodeb o'r Cwynion a Ddaeth i Law (COU2223-133);

NODWYD

4. Cyflwynwyd cynnwys yr adroddiadau er gwybodaeth.

**87. ADRODDIADAU GAN IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (COU2223-134):

1. Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (23 Mehefin 2023);
2. Y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (13 Mehefin 2023);
3. Y Pwyllgor Buddsoddiadau (19 Mai 2023)
4. Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (26 Ebrill 2023 a 14 Mehefin 2023); a
5. Y Senedd (03 Mai 2023 a 21 Mehefin 2023).

NODWYD

6. Yr adroddiadau a ddaeth o’r is-bwyllgorau.

**88. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

1. <u>Ffarwelio</u>

    1. Dyma fydd cyfarfod olaf Dr Will Williams o'r Cyngor. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei waith a'i gyfraniadau gwerthfawr yn ystod ei gyfnod yn y swydd.
    2. Hwn hefyd fyddai cyfarfod olaf Nicola Woods, sydd wedi penderfynu rhoi'r gorau i wasanaethu ar y Cyngor, ond a fydd yn parhau’n aelod o’r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio.
    3. Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar 6 Hydref 2023, a diwrnod strategaeth ar 5-6 Hydref.